# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

29/08/24

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference, Dydd Mawrth, 10 Medi 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Croeso**

2. **Gweddi**

3. **Datgan Diddordeb Personol / Diddordeb sy'n Rhagfarnu**

4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2024 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny. (Tudalennau 3 - 6)**

5. **Aelodaeth**

6. **Niferoedd y disgyblion sy'n astudio Astudiaethau Crefyddol fel TGAU / Lefel A yng Ngheredigion**

7. **Cyflwyniad gan Rhianydd James (ALl) a fydd yn cynnwys diweddariadau ers y cyfarfod diwethaf a diweddariad o'r cyfarfod CCYSAG'au Cymru â gynhaliwyd ar 13/6/24 fel rhan o'r gynhadledd yn Wrecsam.**

8. **Unrhyw Fusnes Arall**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod y **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd yn hybrid/o'r siambr
**ddydd Gwener, 15 Mawrth 2024**

**YN BRESENNOL:**
Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorydd Keith Evans, Keith Henson a John Roberts

Yn Cynrychioli Cymdeithas Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd) Mrs Alwen Roberts (UCAC)

Enwadau crefyddol:
Y Parch Dr John Tudno Williams- Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru, Ms Noha Haroun, Cynrychiolydd ffydd Islam

Mr Colin Partridge, Dyneiddiwr

Aelodau Cyfetholedig: Mr Lyndon Lloyd MBE

Yn Cynrychioli'r Sector Cynradd: Mrs Non Jones McEvoy

Hefyd yn bresennol: Mrs Rhiannydd James, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau a Safonau Democrataidd

(1:30pm- 3:10pm)

**1 Gweddïau**
Dechreuwyd y cyfarfod gyda Mr Lyndon Lloyd MBE yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi i deulu, ffrindiau ac athrawon y ddau blentyn ifanc a oedd wedi marw yn ddiweddar o Ysgol Bro Pedr ac Ysgol Bro Teifi.

**2 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones ynghyd â' r Athro Catrin Williams, y Parch Mark Ansell, y Parch Guto Prys ap Gwynfor, Mrs Manon Lewis a Ms Anna Uruska am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

Dywedodd Mrs Rhiannydd James fod y Parch Guto Prys ap Gwynfor a Mrs Manon Lewis wedi derbyn eu lle ar y pwyllgor, fodd bynnag, doedden nhw ddim yn gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill. Croesawodd y Cadeirydd Mr Colin Partridge i'w gyfarfod cyntaf a rhoddodd drosolwg o'i yrfa cyn symud i Sir Gaerfyrddin. Byddai'n cynrychioli'r dyneiddwyr ar y Pwyllgor.

**3 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2023 ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD i gadarnhau fod cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir.

**Materion yn codi**

Dim.

4 **Aelodaeth**
Cafwyd diweddariad ar aelodaeth y pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Cefnogi Ysgolion ei bod yn parhau i drafod gyda
Mrs Medi James i gadarnhau ei safbwynt mewn perthynas â dod yn aelod o'r Pwyllgor i gynrychioli'r Crynwyr.

5 **Gohebiaeth**
Dim.

6 **Cyflwyniad gan Miss Nia Jones a disgyblion Ysgol Gyfun Aberaeron-thaith i Wlad Pwyl**
Croesawodd y Cadeirydd, Miss Nia Jones i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ymweliad diweddar disgyblion Ysgol Gyfun Aberaeron â Gwlad Pwyl a oedd yn cynnwys eu hymweliad â Krakow, Mwynglawdd Halen Wieliczka, Ffatri Enamel Oskar Schindler ac Auschwitz. Adroddwyd bod ymweliad arall wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2025 ar gyfer 50 o ddisgyblion. Byddai cyfle i dalu mewn rhandaliadau i roi cyfle i bob disgybl i fynychu.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, diolchodd yr Aelodau i Miss Jones am gyflwyniad addysgiadol.

**7 Cyflwyniad gan Laurie Hughes–rhan nesaf Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**
Croesawodd y Cadeirydd Mrs Laurie Hughes i'r cyfarfod i wneud cyflwyniad ar ran nesaf Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
Rhannwyd gwybodaeth am y disgwyliadau ar gyfer elfennau addysgu Iechyd a Lles Rhywiol a Grymuso, Diogelwch a Pharch y fframwaith ar wahanol oedrannau/cyfnodau.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, cytunwyd ar y canlynol:-

(i) bod llythyr yn cael ei ddanfon gan y Pwyllgor at Brif Arolygydd a Chomisiynydd Heddlu Dyfed-Powys yn eu hannog i ailystyried eu penderfyniad i gael gwared ar ymweliadau'r heddlu ag ysgolion oherwydd eu pwysigrwydd i ddisgyblion; a
(ii) y byddai swyddog o Wasanaeth Cyllid y Cyngor yn mynychu'r cyfarfod nesaf i gadarnhau a oedd unrhyw doriadau yn y gyllideb yn y gwasanaethau a ddarparwyd i blant a phobl ifanc yn dilyn y gyllideb ar gyfer 2024/25

**8 Diweddariad ar y niferoedd sy'n astudio Addysg Grefyddol**
Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf am y niferoedd sy'n astudio Addysg Grefyddol yn 2023/24 ac Astudiaethau Crefyddol CA4 a CA5.
CYTUNWYD:-
(i) i nodi'r sefyllfa bresennol;
(ii) bod y bwrdd strategol, CBAC, wedi rhoi gwybod i bob Awdurdod Addysg bod gofyn iddynt ddiwygio eu hadnoddau presennol i addysgu'r cwricwlwm Addysg Grefyddol newydd, byddai deunydd hefyd ar gael ar HWB, a oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd

**9 Diweddariad wrth CYSAGau Cymru a diweddariadau cyffredinol eraill- Rhianydd James**

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a ddarparwyd.

**10 Cais am eitemau ar gyfer cyfarfod tymor yr Haf**

- Diweddariad ar nifer yr ysgolion a fyddai'n cynnig TGAU a Safon Uwch AG i'w hastudio. Os nad oedd pob ysgol yn cynnig y pwnc, dylid gofyn am eglurhad os byddai'r pwnc yn cael ei ddysgu drwy fideo-gynadledda. Roedd sawl aelod o'r Pwyllgor wedi cael gwybod bod y pwnc dan fygythiad mewn sawl ysgol.
- Cyflwyniad gan yr Athro Catrin Williams ar yr adnoddau oedd ar gael ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynorthwyo i addysgu'r pwnc i ddisgyblion ysgol.
- Byddai gwahoddiadau yn cael eu danfon at ddisgyblion a oedd yn astudio Addysg Grefyddol i fynychu cyfarfod i fynegi eu profiad o astudio'r pwnc. Cytunwyd y byddai disgyblion o Ysgolion Penweddig ac Aberaeron yn cael eu gwahodd i fynychu.
- Y byddai Mr Colin Partridge yn gwneud cyflwyniad yn y dyfodol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar Ddyneiddiaeth. Dywedodd hefyd y byddai ar gael i ymweld ag ysgolion, byddai'r neges hon yn cael ei chylchredeg gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgol.

**11 Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a dymuno Ramadan a Phasg hapus i bawb ac am heddwch yn y byd cyn bo hir.

**12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 21 Mehefin 2024 am 1.30pm

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**_____

**Dyddiad:**_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol